Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Yr Enfys

**Boys & Girls Club**
**Lisburn Road**
**Ystrad Mynach**
**Caerffili**
**CF82 7AS**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Yr Enfys

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin yr Enfys |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Anna Webb |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Anna Webb |
| Person â gofal | Lisa Batten |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 1 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 09:00 tan 12:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu mae'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28 Tachwedd 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Chwefror 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/10/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau llafar Cymraeg plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau’r amgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn mwynhau’r rhyddid i symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu a dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, maent yn ymddifyrru wrth daro gwrthrychau i mewn i bwmpen gyda morthwyl. Mae bron bob plentyn yn ymgartrefu’n syth ac yn teimlo’n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn dangos hoffter tuag at yr ymarferwyr, gan fynd atynt yn hapus wrth adael eu rhieni neu ofalwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn â phlant eraill. Maent yn mynegi eu hunain yn effeithiol ac yn gwybod y bydd eu barnau’n cael eu parchu gan ymarferwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn arddangos balchder yn eu gwaith, er enghraifft wrth ddefnyddio gleiniau a dail i greu eu celf eu hunain yn yr ardal greadigol. Maent yn gwenu’n fodlon wrth i’r ymarferwyr wrando arnynt yn astud a holi mwy o gwestiynau iddynt am eu hymdrechion.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’u ffrindiau a’r rhai sy’n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau amseroedd bwyta cymdeithasol, yn ymarfer moesau da ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau â’u cyfoedion ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig fel cymryd eu tro. Er enghraifft, maent yn rhannu siapiau bach yn hwylus wrth eu trefnu nhw. Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu eu dymuniadau a’u hoffterau yn hyderus. Maent yn dewis byrbryd iachus a diod, ac yn dewis lle i eistedd. Mae mwyafrif y plant yn dangos medrau gwrando da. Maent yn ymateb yn dda iawn i ymarferwyr sy’n rhoi cyfarwyddyd iddynt i greu rhes wrth baratoi i olchi dwylo cyn byrbryd.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn chwilio yn yr ardal awyr agored am ddail ac yn defnyddio anifeiliaid o’r ardal byd bach i greu celf. Mae bron bob plentyn

yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, maent yn mynd â darnau o bwmpen i'r ardal cartref i'w 'goginio' yn y gegin.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau'n annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau'n bwrpasol. Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol priodol, er enghraifft wrth olchi eu dwylo'n ofalus ac arllwys eu diodydd yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau'n dda wrth geisio cwblhau tasgau drostynt eu hunain, fel gwisgo cot ac esgidiau. Maent yn dangos balchder mawr pan maen nhw'n cyflawni hyn ac yn derbyn canmoliaeth gan ymarferwyr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn cynnal gweithdrefnau effeithiol i sicrhau eu bod yn iach a diogel. Mae bob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cadw cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol, sy'n cynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn adolygu a dadansoddi'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd. Fel rhan o'u harferion diogelu ehangach ac er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel, mae ymarferwyr yn cofnodi presenoldeb y plant a'u horiau gwaith eu hunain. Mae niferoedd yr ymarferwyr fel arfer yn rhagori ar ddisgwyliadau'r safonau, ac o ganlyniad, goruchwylir y plant yn effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd, yn glanhau'r byrddau cyn amseroedd bwyd ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol wrth newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae ymarferwyr yn modelu ymddygiad parchus a charedig yn effeithiol, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer y plant. Mae perthynas hyfryd i'w gweld rhyngddynt a'r plant yn eu gofal. Mae bob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad positif yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn esbonio'n glir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn eu canmol yn gyson.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu ardaloedd dysgu pwrpasol i blant, gyda llawer o weithgareddau yn aml yn cael eu harwain gan oedolion ond yn bodloni diddordebau'r plant. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn eu holi'n effeithiol wrth iddynt chwarae. Maent yn sensitif i blant sy'n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol, gan roi'r rhyddid iddynt ddewis eu gweithgaredd eu hunain.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol. Rhennir gwybodaeth gyda rhieni yn gyson drwy dudalen gaeedig ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd ddysgu sy'n llawn profiadau diddorol a chyffrous ac sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y plant. Maent yn cynllunio ardaloedd dysgu sy'n annog y plant i fod yn annibynnol drwy ddarparu adnoddau sy'n hygyrch a deniadol. Rhoddir cyfleoedd i'r plant arsylwi, arbrofi, cymryd risgiau a gwneud penderfyniadau mewn modd diogel a difyr. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau torri pwmpenni â chyllyll, o dan oruchwyliaeth ofalus ymarferwyr, er mwyn darganfod beth sydd y tu mewn iddynt. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn ac yn dangos gofal a pharch tuag at bob plentyn. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant chwarae ac arbrofi gydag amrywiaeth dda o offer bywyd go iawn, y tu mewn a thu allan.

Mae gan yr ymarferwyr afael addas ar yr iaith Gymraeg ac maent yn cyfathrebu'n briodol â'r plant ar adegau mwy ffurfiol. Maent yn modelu iaith lafar gan gyflwyno geirfa ac ymadroddion a chanu caneuon yn bwrpasol, er enghraifft mewn cyfnod amser cylch neu sesiwn o ddawnsio. Er hyn, maent yn anghyson yn eu disgwyliadau o ddefnydd y plant o'r iaith, ac oherwydd hyn, nid ydynt yn darparu cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau llafar. Mae'r ymarferwyr yn creu ardal gartrefol sy'n ysgogi'r plant i ddatblygu cariad at lyfrau. Maent yn creu naws lle mae'r plant yn hyderus wrth fynd i nôl llyfrau'n annibynnol, er mwyn pori drwyddynt ar eu pennau eu hunain, neu fynd at oedolyn er mwyn cael cyfle i wrando ar y stori. Mae ymarferwyr yn paratoi cyfleoedd eang i blant ddechrau creu marciau a datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r plant yn dechrau deall bod marciau yn cynrychioli geiriau ac mae ychydig ohonynt yn deall y rheswm am ysgrifennu, er enghraifft drwy greu rhestr siopa. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o gyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu medrau rhifedd y plant. Mae ystod eang ar gael iddynt fel jig-so siapiau, cownteri i gyfri ac offer i ddidoli yn ôl lliw a maint. Mae ychydig ohonynt yn dechrau cyfri'n gywir wrth osod cylchoedd ar fysedd ei gilydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn addas. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd i ddysgu am ddigwyddiadau diddorol mewn diwylliannau eraill. Maent yn ymyrryd yn sensitif ac yn rhesymu'n gall yn yr achosion prin pan mae plant yn anghytuno â'i gilydd neu eisiau'r un tegan. O ganlyniad, mae plant yn datblygu dealltwriaeth o degwch a beth sy'n iawn ac yn anghywir. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u

Cymreictod a'u cynefin yn addas, er enghraifft wrth ddathlu dydd Gŵyl Dewi ac ymweld â'u milltir sgwâr yn rheolaidd. Maent yn mynychu siop ffrwythau leol yn aml i brynu nwyddau ar gyfer amser byrbryd ac yn ymweld â fferm leol yn achlysurol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth arsylwi ac asesu cynnydd y plant. Maent yn arsylwi'n gyson ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy'n hybu datblygiad y plant. Maent yn barod i addasu eu cynllunio er mwyn ymateb yn fwriadus i anghenion a diddordebau'r plant. Caiff bob ymarferydd ei annog i gyfrannu at y broses o adnabod cynnydd a chynllunio gweithgareddau addas.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod y sesiynau er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel trwy weithredu ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae gwiriadau o'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu cwblhau'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn bresennol a bod yr offer yn addas ar gyfer y plant. Mae'r arweinwyr yn ymateb yn brydlon i faterion yn ymwneud â diogelwch y plant ac i unrhyw achos sy'n codi. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn os oes angen gadael yr adeilad ar frys.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu'n effeithiol i hybu datblygiad y plant ac i gynnig profiadau chwarae cyfoethog. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol ar gael sy'n hybu dealltwriaeth y plant o fywyd go iawn. Er enghraifft, mae teclynnau coginio yn yr ardal gartref. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer ac adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant; er enghraifft, mae adnoddau ar gael i helpu'r plant i ddysgu sut i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol. Gwna ymarferwyr ddefnydd pwrpasol o'r ardal awyr agored cyfyng sydd ganddynt, drwy ddarparu cyfleoedd i blant ddatblygu ystod o fedrau wrth iddynt chwarae yn y tŷ bach twt, ar feiciau ac wrth dyfu planhigion yn yr ardd fechan.

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu a'r ardaloedd chwarae yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant  gydweithio a chyfathrebu yn yr adeilad ac yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae, y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn ysgogol ac yn addas ar gyfer y plant. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio arddangosfeydd yn bwrpasol i sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth o berthyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn arddangos lluniau o'r plant yn chwarae yn ardaloedd gwahanol y ddarpariaeth er mwyn dathlu eu hymdrechion a'u llwyddiannau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer sicrhau bod bob plentyn yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad. Mae hi’n angerddol am ddarparu’r sylfaen orau posibl iddynt tra eu bod o dan ei gofal. Gyda chefnogaeth agos ei chydweithwyr, mae’n gwireddu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Rhyngddynt, maent wedi creu awyrgylch ac ethos gofalgar, cynnes a chefnogol.

Mae’r arweinydd yn cynnal amrediad addas o weithgareddau hunanwerthuso er mwyn adnabod yr elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach, fel cynnal trafodaethau rheolaidd anffurfiol gydag ymarferwyr, a thrwy ddanfon holiaduron i rieni a gofalwyr yn achlysurol. Mae bron bob blaenoriaeth gwella wedi eu rhannu’n gamau synhwyrol, ac mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn eu gwerthuso’n rheolaidd. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i sicrhau dewis a hybu annibyniaeth plant amser byrbryd. Erbyn hyn, mae’r plant yn gwneud mwy drostynt eu hunain ac yn dod yn gynyddol annibynnol

Mae gan yr arweinydd a’r ymarferwyr berthynas dda â rhieni a gofalwyr. Wrth i blant ddechrau yn y lleoliad, maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr er mwyn canfod anghenion a diddordebau’r plant. O ganlyniad, maent yn gallu darparu ar gyfer eu diddordebau’n llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant yn briodol mewn adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn. Maent ar gael ar ddechrau a diwedd bob dydd wrth i rieni gasglu eu plant, ac maent yn rhannu ystod o luniau ar gyfryngau cymdeithasol sy’n dangos y plant yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae gan arweinwyr berthynas waith fuddiol ag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae’r berthynas hon yn aeddfed ac yn cyfrannu’n werthfawr at ddatblygiad y ddarpariaeth dros amser. Yn ogystal, mae ganddynt berthynas waith ymarferol â swyddogion y sefydliad ymbarél sy’n cydweithio â nhw. Mae hyn yn sicrhau amrediad o bolisïau a gweithdrefnau a hyfforddiant buddiol sy’n cynnal y ddarpariaeth yn effeithiol. Mae’r arweinydd yn cydweithio’n agos â’r gymuned leol, er enghraifft wrth ymweld â’r llyfrgell yn achlysurol. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o’u cymuned leol yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn ac mae ganddynt drefniadau llwyddiannus ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr. Maent yn gwerthuso ac yn adnabod targedau priodol ar gyfer gwelliannau drwy arfarniadau effeithiol rheolaidd. Mae’r targedau yn aml yn cyfatebu’n agos â blaenoriaethau’r lleoliad. Er enghraifft, mynychodd ymarferwyr hyfforddiant diweddar ar bwysigrwydd dysgu drwy chwarae, sydd wedi atgyfnerthu eu medrau wrth gyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2024